# Atodiad 2 – Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol 2025

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno ein Cod Llywodraethu Lleol ar gyfer 2025, gan amlinellu'r egwyddorion a'r arferion sy'n sicrhau tryloywder, atebolrwydd, a llywodraethu effeithiol. Mae'n gweithredu fel fframwaith i arwain y broses o wneud penderfyniadau a hybu'r safonau uchaf ar gyfer gwasanaeth cyhoeddus.

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English. Yr ydym hefyd yn gallu darparu'r ddogfen hon mewn print bras, fersiwn sain a braille – gofynnwn i chi gysylltu â'r Tîm Gwella a Datblygu Corfforaethol.**



Conwy - Sir flaengar sy'n creu cyfleoedd

Conwy - a progressive County creating opportunity

## Yr ydym eisiau clywed eich barn chi!

Yr ydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth gyfoethog Conwy ac yn credu ei bod yn hanfodol clywed a chydnabod llais pawb. Hoffem glywed gennych chi am yr hyn sy'n effeithio arnoch chi. A yw ein nodau hirdymor yn addas ar gyfer eich cymuned chi, ac a ydym ni'n gwneud y pethau iawn? I gael rhagor o wybodaeth neu i rannu eich barn am unrhyw beth yn ein Cynllun Corfforaethol, cysylltwch â ni.

**Dros e-bost:** sgwrsysir@conwy.gov.uk

**Dros y ffôn:** 01492 57 4000

Yr ydym yn croesawu galwadau ffôn yn y Gymraeg a Saesneg. We welcome telephone calls in English and Welsh.

Gall cwsmeriaid Gwasanaeth BT Relay sydd â nam ar eu clyw neu ar eu lleferydd gysylltu ag unrhyw un o wasanaethau'r Cyngor drwy ddeialu **18001** cyn y rhif sydd ei angen arnynt.

**Drwy Iaith Arwyddion:** Gall defnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain gysylltu â ni'n defnyddio dehonglydd Iaith Arwyddion drwy'r gwasanaeth InterpretersLive! a ddarperir gan Sign Solutions – ewch i www.conwy.gov.uk/cy/Council/Contact-Us/Sign.aspx

**Drwy'r post:** Gwasanaeth Pobl a Pherfformiad
Tîm Perfformiad a Gwella
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Blwch Post 1
Bae Colwyn
LL29 0GG

Yr ydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a Saesneg. Ni fydd unrhyw oedi wrth ymateb i ohebiaeth a geir yn y naill iaith na'r llall.

## Pobl Ifanc

Pobl ifanc yw ein dyfodol a hoffem glywed eich barn chi. Mae'r gwasanaethau sy'n gweithio gyda phobl ifanc eisiau gwrando a rhoi cyfle i chi leisio'ch barn. Mae Cyngor Ieuenctid Conwy yn rhoi llais a dewis i chi yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnoch chi.

Os hoffech chi gymryd rhan, ewch i dudalen Facebook y Cyngor Ieuenctid neu i wefan y Gwasanaeth Ieuenctid, neu cysylltwch â ni:

**Dros e-bost:** gwasanaethieuenctid@conwy.gov.uk

**Dros y ffôn:** 01492 575100

Yr ydym yn croesawu galwadau ffôn yn y Gymraeg a Saesneg. We welcome telephone calls in English and Welsh. Gall cwsmeriaid Gwasanaeth BT Relay sydd â nam ar eu clyw neu ar eu lleferydd gysylltu ag unrhyw un o wasanaethau'r Cyngor drwy ddeialu **18001** cyn y rhif sydd ei angen arnynt.

**Drwy Facebook ac Instagram:** @GIConwyYS

## I gael y wybodaeth ddiweddaraf:

Hoffwch ni ar Facebook

Ewch i'n gwefan i gael gwybodaeth am y Cynllun Corfforaethol

Ewch i'n tudalen we 'Dweud eich dweud'

Cofrestrwch i greu cyfrif ar Fy Nghonwy er mwyn cael y wybodaeth ddiweddaraf sydd fwyaf perthnasol i chi, yn ogystal â llunio a rheoli eich ceisiadau gwasanaeth ar-lein.

## Cynnwys


Ein Hegwyddorion Llywodraethu Corfforaethol ..... 5

1. Egwyddor A: A ydym yn ymddwyn gydag uniondeb, dangos ymrwymiad cadarn i werthoedd moesegol, a pharchu rheol y gyfraith? ..... 5

2. Egwyddor B: A ydym yn sicrhau bod y Cyngor yn agored a’i fod yn ymgysylltu’n drylwyr â budd-ddeiliaid? ..... 7

3. Egwyddor C: A ydym yn diffinio canlyniadau yn ôl buddion economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol cynaliadwy? ..... 9

4. Egwyddor D: A ydym yn penderfynu ar yr ymyriadau angenrheidiol i gyflawni’r canlyniadau a fwriadwyd i’r eithaf? ..... 10

5. Egwyddor E: A ydym yn datblygu ein gallu i gyflawni, gan gynnwys gallu ein harweinyddiaeth a’r unigolion oddi mewn i hynny? ..... 11

6. Egwyddor F: A ydym yn rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth gref dros arian cyhoeddus? ..... 12

7. Egwyddor G: A ydym yn gweithredu arferion da ynghylch tryloywder, adrodd ac archwilio i sicrhau atebolrwydd effeithiol? ..... 15

# Ein Hegwyddorion Llywodraethu Corfforaethol

Mae ein cod Llywodraethu Corfforaethol (y Cod) yn nodi ein safonau llywodraethu. Mae'r safonau hyn yn sicrhau ein bod yn gwneud y pethau iawn yn y ffordd iawn ar yr amser iawn, gan sicrhau ein bod yn gynhwysol, agored ac effeithiol. Mae'r Cod yn seiliedig ar y saith egwyddor llywodraethu a nodir yng nghyhoeddiad Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth / Cymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch-reolwyr yr Awdurdodau Lleol, sef 'Delivering Good Governance in Local Government: Framework' (Argraffiad 2016). Mae'r egwyddorion (A i G) a'r is-egwyddorion (A1 i G3) wedi eu nodi isod, ynghyd â thystiolaeth o sut allwn ddangos ein bod yn cyflawni'r egwyddorion hyn.

## 1. Egwyddor A: A ydym yn ymddwyn gydag uniondeb, dangos ymrwymiad cadarn i werthoedd moesegol, a pharchu rheol y gyfraith?

### A1. Ymddwyn gydag uniondeb

- Mae gennym Gyfansoddiad sy'n nodi sut mae'r Cyngor yn gweithredu, sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud, a beth yw'r gweithdrefnau a ddilynwn i sicrhau bod y rhain yn effeithlon, yn dryloyw ac yn atebol i bobl leol.
- Mae gennym brotocol sy'n rheoli'r cysylltiadau rhwng aelodau a swyddogion.
- Mae yna broses a chofrestr o gysylltiadau personol a busnes (mewnrwyd).
- Mae yna broses ar gyfer datgan cysylltiadau mewn cyfarfodydd pwyllgorau ac fe gaiff pob datganiad ei gynnwys yn y cofnodion.
- Mae yna bolisi a gweithdrefn gysylltiedig ar gyfer sicrhau y gellir gwneud cwynion ac yr ymchwilir iddynt yn ddiduedd, ac ar gyfer sicrhau y gellir rhoi unrhyw wersi a ddysgwyd ar waith.
- Mae ein tîm Archwilio Mewnol yn cyflawni rôl sicrwydd ac ymgynghori gwrthrychol ac annibynnol gyda'r nod o ychwanegu gwerth a gwella ein gweithrediadau. Mae'n ein cynorthwyo i gyflawni ein hamcanion trwy ymdriniaeth systematig a disgyblaethol tuag at werthuso a gwella effeithiolrwydd prosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu.

### A2. Dangos ymrwymiad cadarn i werthoedd moesegol

- Mae gennym God Ymddygiad a Hyfforddiant Moeseg (mewnrwyd) ar gyfer aelodau, a gyflwynir wrth sefydlu aelodau newydd, ac mae'n rhaid i bob aelod lofnodi

cydnabyddiaeth eu bod yn cydymffurfio. Mae'n orfodol i'r holl aelodau gael hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad hefyd.

- Mae gennym brotocol cynllunio.
- Mae gennym Bwyllgor Safonau sy'n hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan gynghorwyr, gan ategu Cod Ymddygiad yr Aelodau.
- Yr ydym yn cynnal rhaglen sefydlu staff sy'n cyfleu gwerthoedd ymddygiadol Conwy, fframwaith cymhwysedd, y disgwyliadau o weithwyr sector cyhoeddus, y llyfryn parch, y polisi disgyblu a rheoliadau ariannol.
- Mae gennym god ymddygiad ar gyfer gweithwyr.
- Mae gennym egwyddorion a gwerthoedd corfforaethol a rennir â'r holl aelodau a staff ac sy'n sail ar gyfer pob agwedd ar wasanaethau'r Cyngor.

## A3. Parchu rheol y gyfraith

- Pennaeth y Gyfraith a Llywodraethu yw'r 'Swyddog Monitro' penodedig yn unol â Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, ac mae'n sicrhau cydymffurfiaeth â pholisïau, gweithdrefnau, cyfreithiau a rheoliadau sefydledig.
- Rhoddir swydd-ddisgrifiadau i bob swyddog statudol sy'n nodi'n glir ei gyfrifoldebau deddfwriaethol a rheoliadol.
- Mae gennym Reolau'r Weithdrefn Gontractau (mewnrwyd) a gwneir datganiadau o gysylltiad mewn cyfarfodydd democrataidd.
- Yr ydym yn darparu rhaglen i sefydlu aelodau newydd.
- Mae yna Bolisi Rhannu Pryderon (mewnrwyd).
- Mae gennym Bolisi Rhoddion a Lletygarwch (mewnrwyd).
- Mae yna Strategaeth Gwrth-dwyll (mewnrwyd) sy'n pennu cyfrifoldebau aelodau etholedig a staff wrth hybu diwylliant sy'n seiliedig ar onestrwydd ac uniondeb, ac mae'n cynnwys gweithdrefnau sy'n ategu ein Polisi Atal Gwyngalchu Arian (mewnrwyd).
- Mae gennym hefyd Bolisi Diogelwch TGCh (mewnrwyd), sydd â'r nod o ddiogelu cyfrinachedd, uniondeb ac argaeledd systemau TG, asedau electronig a gwybodaeth drwy'r sefydliad i gyd.

## 2. Egwyddor B: A ydym yn sicrhau bod y Cyngor yn agored a'i fod yn ymgysylltu'n drylwyr â budd-ddeiliaid?

### B1. Bod yn agored

- Yr ydym yn gweddarlledu a recordio cyfarfodydd democrataidd allweddol a gynhelir yn gyhoeddus (ac eithrio eitemau eithriedig), a chyhoeddir yr holl bapurau ar ein gwefan. Mae pob cyfarfod yn gweithredu gan ddilyn model hybrid.
- Yn unol â Strategaeth Conwy Gynhwysol (ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol), mae'n rhaid asesu effaith pob penderfyniad allweddol ar nodweddion gwarchodedig. Mae gennym asesiad integredig o effaith ar gydraddoldeb sy'n cynnwys y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol a gyflwynwyd yn 2021.
- Mae Grŵp Adolygu Adroddiadau'n adolygu pob adroddiad a gyflwynir i'r Cyngor, y Cabinet a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio er mwyn sicrhau eu bod o safon ddigon uchel.
- Mae gan bob pwyllgor Raglen Waith.
- Mae yna Gofnod o Benderfyniadau, cedwir cofnodion o bob cyfarfod pwyllgor a'u cadw ar Modern.gov.
- Mae'r cyhoedd yn gallu gofyn am wybodaeth o dan reoliadau Rhyddid Gwybodaeth.

### B2. Ymgysylltu'n drylwyr â budd-ddeiliaid sefydliadol

- Yr ydym yn cynnal perthnasoedd â budd-ddeiliaid sefydliadol ac yn cymryd rhan mewn nifer o drefniadau cydweithio er mwyn gwella canlyniadau ar gyfer y gymuned. Mae yna Ganllawiau Gweithredu ar y Cyd (mewnrwyd) sy'n egluro ein dull o sicrhau y cyflawnir gwerth am arian a threfniadau llywodraethu da, a bod ein canlyniadau a gwerthoedd yn cael eu hybu a'u gwarchod wrth weithio mewn partneriaeth. Yr ydym yn adolygu'r holl drefniadau cydweithio allweddol yn flynyddol er mwyn sicrhau eu bod yn dal yn addas.
- Yr ydym yn bartneriaid yn y cyrff cydweithredol canlynol:
  - Y Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol
  - Cydbwyllgor Corfforedig y Gogledd
  - Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
  - Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych
  - Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru
  - Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru

– Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Conwy Diogelach
– Mae Partneriaeth Strategol Tai yn cyfrannu at weithredu Strategaeth Tai Lleol Conwy

### B3. Ymgysylltu'n effeithiol ag unigolion a defnyddwyr gwasanaeth

- Mae ymgysylltu â'r gymuned wedi bod yn hanfodol wrth ddatblygu'r holl gynlluniau strategol a'r penderfyniadau allweddol. Mae sicrhau bod pobl yng Nghonwy yn cael gwybodaeth, yn cael eu cynnwys ac yn cael llais, a'u bod yn gallu gwneud cyfraniad gweithredol, yn egwyddor sylfaenol yn ein Cynllun Corfforaethol. Yr ydym wedi sefydlu:
  – Protocol Ymgysylltu â'r Cyhoedd ar gyfer Trosolwg a Chraffu (mewnrwyd).
  – Strategaeth Gyfathrebu.
  – Strategaeth Cynnwys y Gymuned.
  – Mae yna bum Fforwm Ardal.
  – Mae gennym brosesau ar gyfer cwynion, sylwadau a chanmoliaeth.
  – Mae Conwy Gynhwysol gennym (ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol).
  – Meddalwedd dwyieithog ar gyfer e-ddeisebau.
  – Mae gennym daflenni digidol ar gyfer Treth y Cyngor ac ardrethi busnes (Trethi Annomestig Cenedlaethol) sy'n egluro sut ydym yn rheoli ein cyllideb a'n gwariant.
  – Mae gennym bresenoldeb cryf ar y cyfryngau cymdeithasol – ar Facebook.
  – Mae gennym Strategaeth Ddigidol i'n cynorthwyo i wella mynediad at wasanaethau a gwybodaeth.
  – Mae gennym system gyfieithu ar y pryd ar gyfer iaith arwyddion ynghyd â fideos ac atebion i gwestiynau cyffredin ynghylch Iaith Arwyddion Prydain.
  – Mae ein gwefan yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ynghylch hygyrchedd.
  – Mae yna weithdrefnau ar waith i gydymffurfio â gofynion deddfwriaethol y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.
- Mae gennym Fforwm Rheolwyr a Chydbwyllgor Ymgynghorol er mwyn sicrhau cyfathrebu cyson â staff ac Undebau Llafur. Mae yna gynllun awgrymiadau staff hefyd.
- Yr ydym wedi newid ein dulliau gweithredu'n sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf yng nghyswllt moderneiddio, hygyrchedd, bod yn agored ac ymgysylltu. Mae mwy o gwsmeriaid yn defnyddio ein gwasanaethau ar-lein, ac mae ein swyddfeydd modern

yng Nghoed Pella, Bae Colwyn, wedi ein galluogi i ddiogelu ein ffordd o weithio ar gyfer y dyfodol, gyda'r rhan fwyaf o wasanaethau rheng flaen mewn un lleoliad.

- Byddwn yn ceisio gweithredu proses flynyddol ar gyfer arolygu safbwyntiau defnyddwyr ynglŷn â sut ydym yn perfformio o ran ein swyddogaethau.

## 3. Egwyddor C: A ydym yn diffinio canlyniadau yn ôl buddion economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol cynaliadwy?

### C1. Diffinio Canlyniadau

- Yn ystod pob gweinyddiaeth, yr ydym yn cyhoeddi Cynllun Corfforaethol strategol sy'n darparu'r weledigaeth ar gyfer ein sefydliad ac yn canolbwyntio ar ein prif flaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae'r canlyniadau hyn yn gweithredu hefyd fel ein Hamcanion Lles. Ategir y Cynllun gan nifer o strategaethau gan wasanaethau penodol.
- Adolygir ein Strategaeth Ariannol Tymor Canolig bob blwyddyn.
- Mae gennym Fframwaith Cynllunio Busnes ar gyfer achosion busnes i'w cynnwys yn y cyllidebau refeniw a chyfalaf.
- Mae pob maes gwasanaeth hefyd yn llunio Cynllun Gwasanaeth sy'n seiliedig ar ganlyniadau.

### C2. Buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy

Cofnodir arfarniadau o gynnydd wrth gyflawni'r canlyniadau strategol mewn cyfres o adroddiadau, gan gynnwys:

- Adroddiadau Hunanasesiad o Berfformiad (bob chwe mis)
- Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych
- Datganiad Llywodraethu Blynyddol
- Adroddiadau Cyllid
- Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol
- Adroddiad Monitro Blynyddol y Gymraeg
- Strategaeth Economaidd Conwy
- Adroddiad Perfformiad Carbon Sero Net

## 4. Egwyddor D: A ydym yn penderfynu ar yr ymyriadau angenrheidiol i gyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd i'r eithaf?

### D1. Penderfynu ar ymyriadau (ffyrdd o weithredu)

- Mae gennym Gyfansoddiad wedi ei gymeradwyo sy'n nodi sut mae'r Cyngor yn gweithredu, sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud, a beth yw'r gweithdrefnau a ddilynir i sicrhau bod y rhain yn effeithlon, yn dryloyw ac yn atebol i bobl leol.
- Mae strwythur y pwyllgorau'n nodi sut mae cynghorwyr lleol neu swyddogion dan eu cyfarwyddyd yn gwneud penderfyniadau ac ymyriadau.
- Mae yna bedwar o Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu:
  - Cyllid ac Adnoddau
  - Economi a Lle
  - Addysg a Sgiliau
  - Gofal Cymdeithasol ac Iechyd
- Mae yna dri o bwyllgorau rheoleiddio: Pwyllgor Cynllunio, Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol (ac Is-bwyllgor Trwyddedu), a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae yna hefyd Bwyllgor Safonau a Phwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.
- Mae'r Grŵp Adolygu Adroddiadau'n cwrdd ddwywaith y mis i adolygu'r adroddiadau y bwriedir eu cyflwyno i'r Cabinet ac ystyried cynlluniau gwaith Craffu. Defnyddir templed safonol (mewnrwyd) ar gyfer pob adroddiad pwyllgor.
- Mae'r Tîm Arwain Strategol yn cyfarfod ddwywaith y mis. Mae ei aelodau'n cynnwys y Prif Weithredwr; y ddau Gyfarwyddwr Strategol; Pennaeth yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau; Pennaeth Pobl a Pherfformiad; Pennaeth Statudol Addysg; a'r Swyddog Monitro.
- Mae'r Uwch Dîm Rheoli'n cyfarfod yn fisol, ac mae'n cynnwys y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwyr Strategol a Phenaethiaid Gwasanaeth.
- Mae Fforwm Rheolwyr yn cwrdd bob tri mis i rannu negeseuon a cheisio cysondeb, gwrando ar siaradwyr gwadd allweddol a thrafod datblygiadau rhwng Cyfarwyddwyr a rheolwyr yn y sefydliad.

### D2. Cynllunio ymyriadau

- Caiff adroddiadau sy'n hunanasesu ein perfformiad o ran ein swyddogaethau eu cyflwyno bob chwe mis i'r Uwch Dîm Rheoli, y Pwyllgorau Craffu ac i'r Cabinet; a

phob blwyddyn i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Cyngor. Mae'r adroddiadau hyn yn nodi camau gwella.

- Cyflawnir Adolygiadau Perfformiad Gwasanaeth i adolygu cynnydd, risgiau a chyllid gwasanaethau.
- Yr ydym wedi gweithredu Sgwrs Conwy (mewnrwyd), i gefnogi staff i gyflawni eu hamcanion, teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u clywed trwy fwy o sgyrsiau rheolaidd gyda'u rheolwr atebol.
- Mae gennym Bolisi Diogelu Corfforaethol a threfniadau cytunedig sy'n ein galluogi i gydymffurfio â'r gofynion statudol ynghylch amddiffyn plant a diogelu oedolion diamddiffyn.

### D3. Cyflawni'r canlyniadau a fwriedir i'r eithaf

- Yr ydym yn defnyddio system rheoli perfformiad integredig i gynorthwyo â chynllunio gwasanaethau, rheoli risg, digwyddiadau, archwilio a rheoli prosiectau.
- Mae yna Fframwaith Rheoli Perfformiad ar waith sydd â'r nod o gynnig dolen gyswllt glir rhwng cyflawni'r amcanion a bennir ar gyfer swyddogion yn eu cynlluniau datblygu personol a chynlluniau gwasanaeth, sydd yn eu tro'n helpu i gyflawni'r canlyniadau sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion yn ein Cynllun Corfforaethol.
- Mae gennym Fframwaith Rheoli Prosiectau a Rhaglenni (mewnrwyd) ac mae Fforwm Rheolwyr Rhaglenni a Phrosiectau yn cwrdd bob tri mis.
- Mae Bwrdd Cyfleoedd Conwy'n goruchwylio holl brosiectau a rhaglenni'r awdurdod yn strategol.

## 5. Egwyddor E: A ydym yn datblygu ein gallu i gyflawni, gan gynnwys gallu ein harweinyddiaeth a'r unigolion oddi mewn i hynny?

### E1. Datblygu gallu'r Cyngor i gyflawni

- Mae gennym Strategaeth Datblygu Aelodau.
- Mae gennym Strategaeth Pobl ar waith sy'n nodi ein dull o ddenu, cefnogi, datblygu a chadw staff er mwyn atgyfnerthu ein diwylliant 'Tîm Conwy', a gwneud gwahaniaeth i bobl Conwy.

- Mae yna Gynllun Dirprwyo sy'n diffinio'n eglur y mandad ar gyfer gwneud penderfyniadau o fewn pob lefel yn y sefydliad.  Ategir hyn gan Reolau'r Weithdrefn Gontractau a Rheoliadau Ariannol.
- Polisi Recriwtio a Dewis (mewnrwyd).
- Mae yna gyfres o bolisïau Adnoddau Dynol (mewnrwyd) sy'n ymdrin ag amryw agweddau ar reoli staff.
- Mae pob aelod o staff yn derbyn contract, swydd-ddisgrifiad, ac yn cael sgyrsiau un-i-un rheolaidd yn rhan o Sgwrs Conwy.
- Drwy Fframwaith Doethwaith (mewnrwyd), yr ydym wedi cyflwyno model gweithio hybrid ar gyfer staff swyddfeydd.

### E2. Datblygu gallu arweinyddiaeth y Cyngor ac unigolion eraill

- Gall yr holl staff gael mynediad at Lyfryn ein Hacademi Dysgu (ein Cynlluniau Dysgu a Datblygu) syn cynnwys amrywiaeth o gyrsiau i ategu datblygiad personol a sefydliadol.
- Mae yna Fforwm Datblygu Aelodau.
- Mae yna Bolisi Rheoli Presenoldeb a gall staff gael mynediad at gwmni allanol sy'n darparu cymorth iechyd galwedigaethol.
- Darparwn gymorth i weithwyr drwy gynllun Conwy yn Malio (mewnrwyd).
- Mae gennym gynllun buddion ar gyfer gweithwyr.

## 6. Egwyddor F: A ydym yn rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth gref dros arian cyhoeddus?

### F1. Rheoli risgiau

- Mae gennym Strategaeth Rheoli Risg (mewnrwyd).
- Adolygir y Gofrestr Risgiau Gorfforaethol bob chwe mis o leiaf, ac fe'i cyhoeddir drwy bapurau pwyllgor cyfarfodydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
- Mae gan yr holl wasanaethau asesiadau risg yng nghyswllt iechyd a diogelwch.
- Mae gan yr holl wasanaethau gynlluniau parhad busnes a gaiff eu huwchlwytho i Resilience Direct.
- Mae gennym Strategaeth Seibrgadernid.

- Mae gwaith yn mynd rhagddo i adolygu ein trefniadau cynllunio rhag argyfwng, gan fabwysiadu model Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru.

### F2. Rheoli perfformiad

- Mae gennym Fframwaith Rheoli Perfformiad ar waith yn seiliedig ar CAMMS, ein System Rheoli Perfformiad (yn ogystal ag ar gyfer prosiectau, risgiau a digwyddiadau).
- Mae ein Tîm Perfformiad a Gwelliant ar gael i roi cefnogaeth i wasanaethau gyda threfniadau effeithiol ar gyfer rheoli perfformiad, ac mae gan y rhan fwyaf o wasanaethau reolwyr busnes er mwyn hwyluso'r gwaith hwn.
- Cofnodir arfarniadau o gynnydd wrth gyflawni'r canlyniadau strategol mewn cyfres o adroddiadau, gan gynnwys:
  - Adroddiadau Hunanasesiad o Berfformiad (bob chwe mis)
  - Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych
  - Datganiad Llywodraethu Blynyddol
  - Adroddiadau Cyllid
  - Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol
  - Adroddiad Monitro Blynyddol y Gymraeg
  - Strategaeth Economaidd Conwy
  - Adroddiad Perfformiad Carbon Sero Net

### F3. Rheolaeth fewnol gadarn

- Mae'r Tîm Arwain Strategol, yr Uwch Dîm Rheoli a'r Cabinet yn goruchwylio ein gweithgareddau.
- Mae yna swyddogaeth Graffu gref i fonitro risg, gwasanaeth a pherfformiad ariannol.
- Mae gan wasanaeth Archwilio Mewnol fap sicrwydd a ddefnyddir i lywio Cynllun Blynyddol Archwilio Mewnol. Mae Siarter Archwilio Mewnol (mewnrwyd) ar waith, a chyflwynir adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
- Mae'r Grŵp Gwella ac Archwilio yn sicrhau ein bod yn mynd i'r afael yn briodol â risgiau a ganfyddir ac argymhellion archwilio mewnol ac allanol ar gyfer gwella.
- Mae Tîm Perfformiad a Gwelliant yn goruchwylio perfformiad, risg a phrosesau rheoleiddio ar ran y sefydliad, ac yn paratoi adroddiadau manwl yn rheolaidd i Uwch

Reolwyr, Pwyllgorau Craffu, y Cabinet a'r Cyngor gydag argymhellion ar gyfer gwella.

### F4. Rheoli data

- Mae gennym Uned Llywodraethu Gwybodaeth sy'n gyfrifol am y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol a cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth.
- Mae ein Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth yn cyfarfod bob tri mis.
- Mae gennym Fframwaith Llywodraethu Gwybodaeth ar gyfer polisïau yn ymwneud â gwybodaeth.
- Mae hyfforddiant ar Lywodraethu Gwybodaeth ar gael ar-lein a thrwy sesiynau a ddarperir i'r holl Aelodau Etholedig a staff.
- Caiff data perfformiad a risg eu storio a'u monitro drwy ein system CAMMS, ac adroddir arnynt drwy CAMMS.

### F5. Rheolaeth gref dros arian cyhoeddus

- Mae rôl y Prif Swyddog Ariannol (Swyddog A151) wedi ei chynnwys yng nghyfrifoldebau Cyfarwyddwr Strategol Cyllid ac Effeithlonrwydd. Mae'r Cyfarwyddwr yn gyfrifol am weinyddu ein materion ariannol yn briodol.
- Mae ein trefniadau rheoli trysorlys yn seiliedig ar arferion proffesiynol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae trefniadau cadarn ar gyfer rheolaeth ariannol effeithiol trwy ein gweithdrefnau cyfrifyddu a rheoliadau ariannol fel y canlynol:
  - Adroddiadau Cyllid
  - Strategaeth Ariannol Tymor Canolig
  - Cynllun Lwfansau Aelodau
  - Strategaeth Rheoli'r Trysorlys
  - Cynllun Rheoli Asedau
  - Datganiad Cyfrifon
  - Rheoliadau Ariannol (mewnrwyd)
  - Gwybodaeth am Dreth y Cyngor
  - Rheolau'r Weithdrefn Gontractau (mewnrwyd)
  - Strategaeth Gaffael Gorfforaethol (mewnrwyd)

- Mae archwilwyr allanol yn cyflwyno tystysgrif cydymffurfiaeth flynyddol i gadarnhau ein bod yn cyflawni ein cyfrifoldebau ynghylch adroddiadau ariannol.

## 7. Egwyddor G: A ydym yn gweithredu arferion da ynghylch tryloywder, adrodd ac archwilio i sicrhau atebolrwydd effeithiol?

### G1. Gweithredu arferion da ynghylch tryloywder

- Cynhelir pob un o gyfarfodydd y Cabinet a'r Cyngor yn gyhoeddus (ac eithrio eitemau eithriedig) a chyhoeddir yr holl bapurau ar wefan y Cyngor. Mae pob cyfarfod yn gweithredu gan ddilyn model hybrid.
- Mae'r holl raglenni ac adroddiadau ar gael ar ein gwefan oni bai eu bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig.
- Mae gennym gofrestr o gysylltiadau'r aelodau.
- Mae yna Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.
- Cwblhaodd aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Hunanasesiad y Fframwaith Gwybodaeth a Sgiliau ar gyfer pwyllgorau archwilio a grëwyd gan Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth mewn perthynas ag effeithiolrwydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
- Mae ein Hadroddiadau Hunanasesiad o Berfformiad a'n Datganiad Llywodraethu Blynyddol – fel corff o dystiolaeth – yn dangos ein hymrwymiad i dryloywder, ac yn cyfeirio at bolisïau, penderfyniadau ac adroddiadau allweddol a luniwyd dros y flwyddyn ariannol ddiweddaraf. Cyhoeddwyd y rhain ar-lein yma: www.conwy.gov.uk/cy/Council/Performance/Performance.aspx.

### G2. Gweithredu arferion da wrth adrodd

- Mae adroddiadau perfformiad Archwilio Mewnol yn cael eu cyflwyno'n rheolaidd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
- Mae'r Grŵp Gwella ac Archwilio yn sicrhau ein bod yn mynd i'r afael yn briodol â risgiau a ganfyddir ac argymhellion archwilio mewnol ac allanol ar gyfer gwella.
- Mae ein Hadroddiadau Hunanasesiad o Berfformiad, Adroddiadau Risgiau Corfforaethol, a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi eu cynllunio i fodloni safonau hygyrchedd. Yr ydym yn adrodd ar dueddiadau mewn adroddiadau perfformiad a risg, gan ddangos targedau a goddefiannau cytunedig yn glir yn y cyntaf er mwyn cynorthwyo'r aelodau a'r cyhoedd i'w deall a chraffu arnynt.

- Cyflwynwyd adroddiadau Hunanasesiad o Berfformiad hefyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf er mwyn gwella amseroldeb y wybodaeth a gyflwynir i aelodau. Adolygwyd ein tudalen we perfformiad hefyd er mwyn darparu cronfa ddata barhaus lle gellir gweld adroddiadau hanesyddol, gan wella tryloywder.

### G3. Sicrwydd ac atebolrwydd effeithiol

- Tîm Arwain Strategol / Uwch Dîm Rheoli a'r Cabinet yn goruchwylio.
- Her gref gan bwyllgorau Craffu a rheoleiddio, yn cynnwys y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
- Cyhoeddir adroddiad blynyddol am berfformiad y swyddogaeth graffu er mwyn ei hystyried a'i hadolygu.
- Mae gennym Brotocol Ymgysylltu Trosolwg a Chraffu.
- Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cyflawni hunanasesiad yn flynyddol.
- Cyflwynir Adroddiadau Hunanasesiad o Berfformiad, Adroddiadau Rheoleiddio Allanol (yn cynnwys cydymffurfiaeth), ac adroddiadau Risgiau Corfforaethol yn rheolaidd i'r Uwch Dîm Rheoli, Pwyllgorau Craffu, Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Cabinet, lle'r adolygir cynnydd yn ôl camau gweithredu, a darperir y wybodaeth ddiweddaraf gan wasanaethau.
- Yr ydym yn derbyn Adroddiadau'r Arolygwyr.
- Mae Grŵp Gwella ac Archwilio yn adolygu effeithiolrwydd camau rheoleiddio a mesurau rheoli risgiau'n rheolaidd.
- Mae'r Pennaeth Archwilio'n cyhoeddi adroddiad blynyddol ar sail adolygiad o effeithiolrwydd ein system rheoli mewnol ac yn rhoi barn (barn archwilio) ynghylch yr amgylchedd rheoli.
- Derbyniwn raglen flynyddol o adolygiadau archwilio allanol, sy'n cynnwys:
  - Archwilio Cymru
  - Estyn
  - Arolygiaeth Gofal Cymru